



MAE **667**

O FUSNESAU SYDD WEDI
COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO
YN DOD O'R SECTOR ORGANIG

Y Rhwydwaith Arddangos

Cae Derw – Arallgyfeirio i arddwriaeth a sefydlu menter casglu eich hun gan ddefnyddio'r dull dim turio



Ffigwr 1. Menter dewis eich hun Cae Derw gan ddefnyddio dull dim cloddio.

Gyda chefnogaeth gan Cyswllt Ffermio, cafodd prosiect ei sefydlu, wedi'i anelu er mwyn datglybu gardd farchnad ecolegol-gadarn, ariannol-hyfyw a fydd yn cynnwys ffrwythau, llysiau, cnydau salad a blodau trwy ddefnyddio'r dull dim turio. Byddai'r prosiect hefyd yn archwilio'r defnydd o wllân yn hytrach na chardfwrdd fel sylfaen i atal chwyn. Y prif amcan i Cae Derw yw tyfu mor naturiol ac mor ecolegol â phosibl, gan ddefnyddio adnoddau lleol megis compost di-fawn a thail buarth o'r fferm drws nesaf.

Gyda'r pwyslais ar wella ymgysylltiad y cyhoedd, mae cynnyrch a dyfir yn cael ei dargedu at y farchnad casglu eich hun (PYO), gan ddarparu cyfleoedd i bobl dreulio amser yn yr awyr agored a chysylltu â chynhyrchu bwyd a blodau lleol, naturiol. Mae'r system dim palu sy'n defnyddio gwelyau uchel yn addas ar gyfer y math hwn o fenter ac, ar ôl ei sefydlu, gellir defnyddio'r gwelyau ar gyfer amrywiaeth o gnydau.

Mae'r system dim palu yn cynnig ffordd fioamrywiol o dyfu gan ei fod yn darparu pridd cyfoethog i dyfu ynddo ac mae'n ffordd wych o glirio ardal dyfu â phla chwyn yn organig, heb ddefnyddio cemegau. Drwy osgoi palu, ni fyddwch yn amharu ar fywyd y pridd, y micro-organebau pwysig, ffyngau a mwydod, sy'n helpu i fwydo gwreiddiau planhigion.

Plannwyd bylbiau blodau trwy Mypex, sydd, er yn fwy llafurus bellach, yn lleihau'r chwynnu yn y gwanwyn. Roedd yr ymateb gan y cyhoedd, gan ddechrau gyda'r arwerthiannau cennin Pedr ym mis Mawrth yn wych. Datblygwyd llinell newydd mewn blodau jariau jam a phrofodd hyn i fod yn boblogaidd wrth i amrywiaeth y blodau gynyddu. Anogwyd y cyhoedd i gasglu a thorri blodau a threfnu eu sypiau eu hunain. Roedd y gwelyau blodau uchel ar gyfer diwrnodau PYO yn boblogaidd iawn ac yn llwyddiannus yn ariannol, felly, y bwriad yw gwneud mwy o'r rhain yn 2022, gan ddechrau gyda bylbiau'r gwanwyn.



Ffigwr 2: Blodau jar jam yn cael eu casglu a'u torri gan y cyhoedd a'u trefnu'n sypiau eu hunain.

Fedw Arian Uchaf – Gwella gwrychoedd i ddiffinio terfynau pori cylchdro




Ffigwr 3. Ffiniau pori cylchdro Fedw Arian Uchaf.

Mae Geraint, Rachael a'r teulu yn cadw fferm ucheldir biff a defaid organig ar gyrion y Bala ac o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Prif amcan y safle ffocws yw gwella perfformiad amgylcheddol cyffredinol y fferm, fydd yn cyfrannu tuag at wella perfformiad ariannol busnes y fferm. Mae sawl dewis yn cael eu hystyried ac un dewis yw cyflwyno system bori cylchdro newydd, flaengar gan ddefnyddio terfynau traddodiadol. Er mwyn lleihau'r baich gwaith o symud ffensys trydan yn barhaus, bydd y prosiect yn asesu'r gwrychoedd sy'n bodoli trwy gynhyrchu cynllun rheoli gwrychoedd. Bydd hyn yn dynodi ac yn blaenoriaethu'r gwrychoedd sy'n bodoli i'w hadfer a sefydlu rhai newydd i ddiffinio'r rhannau o borfa fydd eu hangen ar gyfer y fuches fagu.

Mae gwrychoedd yn adnodd allweddol ar y fferm i ddarparu cysgod. Gall cysgod cryf a chadarn olygu bod da byw yn troi allan yn gynt yn y gwanwyn ac yn cael eu cadw dan do yn ddiweddarach yn yr hydref, gan felly leddfu'r pwysau o gynyddu cyfaint y slyri yn y storfa a faint o ammonia sy'n cael ei ryddhau.

Defnyddir y gwaith arolygu i lunio gweledigaeth dymor hir yn unol â'r gofynion rheoli gan ganolbwyntio ar ansawdd y dŵr, cysgod, bioamrywiaeth, dal a storio carbon, bioddioelwch a chyfraniad at allbynu rheoli tir yn gynaliadwy.

Bydd hyn yn cael ei drosi'n rhaglen waith dros gyfnod o flynyddoedd gyda blaenoriaethau penodol i'w gweithredu trwy ddewis opsiynau cyfalaf pan fydd cynlluniau peilot ar gael i'w rhoi ar waith. Y weledigaeth yw adeiladu a pharatoi i wneud cais i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a bodloni'r meini prawf opsiwn cyffredinol sydd eu hangen i gael mynediad i'r cynllun. Bydd rhagor o goed yn cael eu plannu'r gaeaf hwn i sefydlu a threialu system amaeth-goedwigaeth a fydd yn darparu lleiniau clustogi ar hyd cyrsiau dŵr ac yn darparu cysgod mewn tywydd eithafol wrth gynyddu bioamrywiaeth ac atafaelu carbon ar y fferm.



Click [yma](#) to watch Pennod 65 – Gwella perfformiad amgylcheddol ac economaidd y fferm.

Cymorthfeydd



CYNHALIUYD **2** CYMHORTHFA



Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

Rheoli tir glas a chnydau porthiant



Roedd y ddwy gymhorthfa eisiau trafod a gofyn am gyngor glaswelltir.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Cyhoeddwyd yr erthyglau technegol canlynol gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

-  DATGLOI POTENSIAL CNYDAU AMGEN: INCWM NEWYDD A CHYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL
-  CYNHYRCHU LLAETH DAFAD: DEAL CYN EHANGU
-  DEFNYDDIO FFILMAU POLYMER FFOTODETHOLUS I DYFU CNYDAU A'U GWARCHOD
-  RHWYSTRO'R RHEDYN: STRATEGAETHAU RHEOLI A LLINIARU
-  DAN DO NEU YN YR AWYR AGORED: EFFEITHIAU HINSODDOL TYFU MEWN AMGYLCHEDD A REOLIR
-  TYFU CNYDAU AR GYFER Y DIWYDIANT FFERYLLOL
-  DANGOSYDDION BIOLEGOL IECHYD PRIDD
-  GWEITHREDIAD A GWYTNWCH ECOSYSTEM: PAM EI FOD YN BWYSIG I AMAETHYDDIAETH?
-  CLAFR DEFAID: Y DIWEDDARAF AC YSTYRIAETHAI AT Y DYFODOL
-  SUT MAE GWYNDONNYDD LLYSIEUOL YN EFFEITHIO AR IECHYD A PHERFFORMIAD WŶN SY'N PORI
-  FFOCWS FFERMIO AR FFYNGAU: YSTYRIED ISLAW'R DDAEAR ER BUDD UWCHLAW'R DDAEAR
-  DEFNYDDIO MYCORHISA: NATUR NEU FAGWRAETH

Grwpiau Trafod

 CYNHALIWYD **16** CYFARFOD GRŴP TRAFOD YN YMWNEUD â'R SECTOR ORGANIG gyda  **173** O FYNICHWYR

Hyfforddiant

Cafwyd **6** cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2021 a Medi 2022 gyda **1,064** achos o hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod.


O'r rhain, gallai'r cyrsiau canlynol gael eu hystyried o fewn y sector Organig:

Cynllunio menter arallgyfeirio neu fenter newydd ar fferm 

Cyflwyniad i reoli llyngyr a chyfrif wyau ysgarthol ar gyfer cynhyrchwyr defaid 

Defnydd diogel o slyri 

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector Organig yn cynnwys: 

TAIL FFERM WEDI'I GOMPOSTIO 

RHEOLI CHWYN 

LLEIHAU LLYGREDD AMAETHYDDOL 

GARDDWRIAETH ORGANIG 

Am ragor o fanylion ynglŷn ag e-ddysgu, ewch i'r wefan.

Mentora

Mae gennym ni **13 Mentor Organig** ar y fframwaith. 

Pynciau a drafodwyd:

Rheoli tir organig yn effeithlon i'w ddefnyddio mewn bocsys cig

Mentrau llaeth organig

Cadw gwenyn yn organig



Cliciwch yma i weld **proffil Alan**



Cliciwch yma i weld **proffil Dafydd**



Cliciwch yma i weld **proffil David**



Cliciwch yma i weld **proffil Haydn**



Cliciwch yma i weld **proffil Helen**



Cliciwch yma i weld **proffil Jim**



Cliciwch yma i weld **proffil Keri**



Cliciwch yma i weld **proffil Phillip**



Cliciwch yma i weld **proffil Richard**



Cliciwch yma i weld **proffil Romeo**



Cliciwch yma i weld **proffil Adam**



Cliciwch yma i weld **proffil Lowri**



Cliciwch yma i weld **proffil Rachel**

Cyfnewidfa Rheolaeth

Mae Gerald Miles, ffermwr seithfed genhedlaeth, ynghyd â'i fab Gerald, yn rhedeg buches sugno gwartheg Duon Belted Cymreig sy'n cael eu bwydo ar borfa organig yn Sir Benfro. Mae ganddynt hefyd fenter glampio lewyrchus yn eu lleoliad arfordirol ysblennydd. Yn ychwanegol, maent yn tyfu 20 erw o fathau hynafol o wenith, gan gynnwys Ceirch Llwyd, Grawn Emmer, Grawn Einkorn; Ebrill Barfog a Hen Gymro. Helpodd Gerald i sefydlu'r grŵp Amaethyddiaeth â Chymorth Cymunedol cyntaf yng Nghymru, ac mae wedi ymuno â menter newydd, sef 'Sofraniaeth Hadau' i ddiogelu'r mathau newydd o wenith yn erbyn deddfwriaeth sy'n eu rhoi mewn perygl.

"Bydd fy nghyfnewidfa yn fy ngalluogi i ddysgu sut mae eraill wedi symud ymlaen o dyfu i brosesu ar y fferm, a chyflenwi i bobwr crefft. Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth y byddaf yn ei chael yn arwain at greu menter gydwethredol i ffermwyr a marchnad hyfyw ar gyfer gwenith Cymreig."